Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
TACHWEDD 2008

DYDDIAD	Nos Fercher 19eg Tachwedd, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Cae'r Gors, Rhosgadfan
PRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Tom Ellis, Gwilym V.Thomas, Huw Williams, Neal Williams, Jane Eryl Jones, Meurig Williams, Elwyn Jones, Elin Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones Bethan Williams, Clerc

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Nerys Evans, Gwilym L.Williams

3. 1 **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion fis Hydref fel rhai cywir, oni bai am (e) isod.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Ailgylchu – angen trafod y trefniadau sy'n bodoli yn yr ardal. Nododd y clerc ei bod wedi cael gwybod gan Gyngor Gwynedd y bydd biniau brown ar gael i bawb yn yr ardal erbyn diwedd Ionawr. Nododd GVT nad oedd yn bosib lleoli biniau ail-gylchu yng Nghlwb Rhosgadfan. Yn y gorffennol, mae Cyngor Gwynedd wedi gwrthod rhoi biniau ar safle ger Beudy Sam.
   b. Safle cysgodfan bysiau Rhosgadfan – llythyr o gwyn ynglyn a bwriad i osod cysgodfan newydd. Clerc i ateb gan nodi fod angen am gysgodfan, ond ein bod am edrych ar yr union safle, gan efallai symud y gysgodfan fymryn yn nes at ochr y palmant.
   c. HW - Cae Chwarae Rhosgadfan – cyfarfod cyhoeddus am gael ei drefnu gan HW naill ai 8fed neu'r 9fed o Ragfyr. Derbyniwyd copi o fantolen blwyddyn 2006/07 a blwyddyn 2007/08. Hefyd cafwyd copi o fantolen banc am y cyfnod 03.03.06-03.04.06; 03.03.07-03.04.07; 03.03.08-03.04.08 ac 03.07.08-03.08.08. Clerc i wneud copi ohonynt a'u hanfon i Glwb Mountain Rangers i'w harddangos ar y wal. Mae AMJ hefyd efo'r bwriad i geisio cynnal cyfarfod cyhoeddus pellach gan geisio cael holl fudiadau'r pentref i'r cyfarfod i drafod strategaeth lawn i'r pentref.
   d. MW – sbwriel o gwmpas pentref Rhosgadfan, awgrymu cysylltu efo tasglu newydd dan ofalaeth Peter Simpson
   e. NW – adeilad perygl – Capel Gorffwysfa Nododd Neal Williams mai'r ty capel sy'n beryg, sef Min y Mynydd. Nododd y clerc a chywiro'r cofnodion.
   f. GVT – rampiau ger Dreflan – beth ydy'r diweddara? AMJ yn cael cyfarfod efo Meirion Williams, Cyngor Gwynedd fore dydd Gwener i drafod llawer iawn o'r problemau yn yr ardal. (gan gynnwys (g), (j), (k), (q) a rhai achosion perthnasol yn (p) isod)
   g. JEJ – wal ffrynt yn Ffrwd Cae Du – polion yn dod drosodd i'r palmant, hefyd

clerc i atgoffa Cyngor Gwynedd am rai ger Bryn Melyn, Rhos Isaf

h. NE – ceisiodd rhywun dorri mewn i Ysgol Rhostryfan yn ddiweddar, ni fu'n llwyddiannus ond ni cheisiodd neb o'r cyhoedd ffonio'r heddlu pan ganodd y larwm. Tybed oes modd ceisio cael cydweithrediad pobl yn yr ardal, efallai adael rhif ffôn ar gyfer y trigolion i ffonio pe baent yn gweld rhywbeth amheus yn digwydd yn yr ysgol. Clerc i gael gair gyda'r pennaeth er mwyn cynnig cefnogaeth.

i. ElJ – twll ar lwybr Lein Bryngwyn ger Bron Meillion – ElJ yn mynd i'w drwsio. Hefyd angen gofyn wrth Wyn dorri'r llwybr rhwng Cae Haidd a chaeau Coed y Brain, ac efallai agor rhywfaint ar y ffoes i sychu rhywfaint ar y llwybr.

j. ElJ – angen drych newydd ger Ty Nant

k. ElJ – cafwyd cais i gael gosod drych dros y ffordd i fynedfa Tai Tanrallt, clerc i ymholi

l. TE – arwyddion cerddwyr yn croesi ar y ffordd newydd ac arwyddion i ddynodi Pwllheli/Caernarfon ar y gylchfan. AMJ yn mynd ar ôl Adran Gefnffyrdd eto.

m. SLCC – llythyr diolch a rhestr o'r cyfarfodydd am y flwyddyn

n. Uwchgwyrfai – copi o lythyr Rhodri Morgan AS at Alun Ff.Jones AS. Mae AMJ yn cael cyfarfod efo WEFO i drafod ymhellach.

o. Lein Bryngwyn – copi o lythyrau Pritchard Jones a Gareth W.Jones, Cyngor Gwynedd ynghyd ag ebost gan Wyn Williams yn gofyn am gadarnhad gan Gyngor Llanwnda ein bod yn fodlon cymryd drosodd gofal y tir

p. Materion Aeron M.Jones – Lôn Dinas i Rhos Isaf; biniau baw cwn; arian Cyngor Gwynedd mewn banciau yng Ngwlad yr Ia; biniau brown; treth anomestig (ceisio rhoi mesur gerbron fyddai'n caniatau 20% o ostyngiad treth i bobl fusnes lleol); plismona; defnydd o gerbydau y Cyngor tu allan i oriau gwaith; cwynion Bro Gilbert; ffordd rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan; cyffordd Ffrwd Cae Du; Uwchgwyrfai; cynllunio; problemau insiwleiddio mewn tai cyngor;

q. Dwr ar y ffordd yn Felinwnda a Saron – ymateb gan Meirion Williams

r. Arwyddion LED – nododd Mel Fôn fod y cwmni yn ymwybodol o'r problemau ac yn mynd i ddod i gael golwg ar yr arwyddion.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
NE a'r clerc wedi mynychu cyfarfod efo Cyngor Gwynedd i drafod y bwriad i ymgynghori ynglyn a chael mwy o bwerau i'r cynghorau cymuned a thref. Pawb yn cytuno y dylai'r cynghorau cymuned gael mwy o wybodaeth cyn mynd ymhellach.

7. **Is-bwyllgorau:**
Trefnwyd is-bwyllgor cyllid ar nos Lun, 1af o Ragfyr yn Rhostryfan, i drafod argymhellion yr archwiliwr allanol.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	**21,531.61**
Cyfri Siec:	**576.64**
CYFANSWM	**22,108.25**

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Tachwedd	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Canolfan Llanwnda – hurio'r neuadd	6.00
Sul y Cofio - wreath	20.00
Siôn Owen	800.00

Cafwyd cais gan MW i ysgrifennu at Mr.Derk Thompson i ddiolch iddo am y gwasanaeth Sul y Cofio.

Wedi cael pris a ffurflen archeb gan Macemain Amstad ar gyfer cysgodfan yn Rhosgadfan - £5,634.13. Clerc wedi mynd ymlaen efo'r archeb.

Cyngor Gwynedd – arwyddion (£4,000 wedi'i dalu – angen talu'r gweddill ar ôl trwsio'r arwyddion: £4,918.89)

Incwm: Roberts & Owen, claddedigaethau 220.00

Llythyrau o ddiolch am nawdd gan:
Shelter Cymru, Ysgol Rhosgadfan, Cylch Meithrin Llanwnda, Cymdeithas Alzheimer's.
(O.N: derbyniwyd llythyr drwy ebost noson y cyfarfod gan Glwb Pêl Droed Ieuenctid Mountain Rangers)

Materion Cynllunio
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol cyn belled â bod swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd yn sicrhau y bydd y llwybr yn sych dan draed ac yn addas i'w gerdded yn dilyn ei wyro.
CO8A/0665/24/LL – Bodgarad, Rhostryfan – cais i adeiladu adeilad amaethyddol ac i wyro llwybr cyhoeddus

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0639/24/LL – Fferm Rhosgawen, Saron – cais i adeiladu ty deulawr a chreu mynediad.
Co8A/0534/24/LL – Nant Bach, Moel Tryfan – dymchwel ty presennol un llawr ac ail-godi ty unllawr newydd, codi modurdy dwbl unllawr, estyniad cwrtil a gosod tyrbein gwynt

Eisoes wedi'u caniatau:
13 Bro Cadfan – estyniad

Gohebiaeth:

a. Swansea Building Society – cynnig telerau gwell ar gyfer arian sbâr Cynghorau Cymuned – aelodau wedi penderfynu peidio derbyn y cynnig.
b. Zurich – newid o fewn fframwaith y cwmni
c. Llyfryn Canolfan Celfyddydau ac Arloesi , Prifysgol Bangor
d. Llyfryn Rhyddid Gwybodaeth
e. Comisiwn Ffiniau – adolygiad o ganlyniadau etholiad cyngor cymuned 2008
f. Cymdeithas Tai Eryri – Adroddiad Blynyddol
g. Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011
h. Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) Penderfynwyd peidio cael cyfarfod llawn mis nesa, gan ei bod yn agos at y Nadolig a pawb yn brysur. Fodd bynnag, os bydd unrhyw fater y bydd y clerc yn teimlo y bydd angen sylw, yna bydd yn galw cyfarfod.
b) Mater brys – GVT – cerrig yn dod i'r ffordd rhwng Bryn Golau ac Ael y Bryn yn Rhosgadfan, wrth i ddefaid ddod o'r mynydd a drosodd i'r ffordd. Angen ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gorfodi'r perchennog i drwsio'r wal.
c) NW – coed yn gor-dyfu ger Glyn Afon ac felly'n cysgodi'r lamp ac yn tywyllu'r ardal gyfan, gan ei gwneud yn anodd i yrrwyr bysiau weld pobl sy'n disgwyl bws.
d) MW – biniau halen ger Bro Cadfan. Nododd GVT nad oes un ar ben Allt Dafarn chwaith.
e) MW – nododd fod problem dwr wyneb ffordd ger cysgodfan Penyffridd – AMJ yn mynd i drafod y mater efo Meirion Williams ddydd Gwener.
f) MW – cwynion wedi dod i law ynglyn ag oriau syrjeri Rhostryfan. Bellach nid yw'n bosib i bobl sy'n gweithio tan 5 gael mynediad i'r syrjeri gan mai dim ond rhwng 12.30 a 3.30 o ddydd Llun i ddydd Iau mae'r syrjeri'n agored. Clerc i ysgrifennu at y practis.
g) Llwybr Gors Goch – ceffylau wedi malu'r tir eto eleni, ac yn ei gwneud ym amhosib i gerdded y llwybr. Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd.
h) ElJ – problemau traffig a pharcio ar y ffordd sy'n arwain i Ysgol Rhostryfan – gofyn eto am gyfarfod safle
i) EE – monitro traffig yn Saron – AMJ am gael canlyniadau'r archwiliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch.